
# 10. Gweithio gyda Newyddion Adrannol


Mae angen trin tudalennau Newyddion Adrannol sy'n defnyddio'r System Newyddion ychydig yn wahanol i dudalennau arferol, ac mae angen cymryd camau ychwanegol i sicrhau eu bod yn ymddangos yn gywir

Mae'r system newyddion yn eich galluogi i gael un storfa newyddion a ddefnyddir mewn sawl ffordd. Caiff y 3 erthygl newyddion diweddaraf eu rhestru ar dudalen gartref yr Adran a chaiff y 10 erthygl diweddaraf eu rhestru o fewn yr adran Newyddion a Digwyddiadau pwrpasol. Bydd clicio ar bennawd newyddion yn mynd â'r defnyddiwr i'r erthygl newyddion lawn.


Mae'r newyddion yn ymddangos ar waelod tudalen gartref yr adran:



Mae'r dudalen Newyddion a Digwyddiadau yn cynnwys lluniau a chrynodeb o'r prif storïau:




Bydd dolen i'r adran Archif Newyddion hefyd yn ymddangos ar waelod y dudalen Newyddion a Digwyddiadau.




Bydd yr adran Newyddion a Digwyddiadau hefyd yn cynnwys lluniau a chrynodeb o'r storïau wedi'u harchifo:

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cymraeg

Home / Department of Geography & Earth Sciences / News & Events / News Archive

- About us
- Study with us
- Research
- Open Days
- Employability
- Study Abroad
- Study in Welsh
- Facilities
- Outreach
- Information for current students
- News & Events
  - News Archive
  - DGES Newsletter


# News Archive



## Geographers reach new heights to raise money

A team of Geography and Earth Sciences staff and postgraduate students have completed a challenge inspired by their colleague, and have raised over £2,000 for the Chemotherapy Unit at Bronglais Hospital.


**Read article**



Transport research boost with Aberystwyth's South Korea

Gosodiad safonol ar gyfer erthyglau newyddion.

Brig:



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cymraeg

Home / Department of Geography & Earth Sciences / News & Events / News article

About us
Study with us
Open Days
Employability
Outreach
Research
Information for current students
Virtual Tour
News & Events
News Archive
DGES Newsletter
Staff Profiles
Contact Us

## Aberystwyth University pledge to reduce its use of single use plastic


Professor Neil Glasser, Pro Vice-Chancellor with responsibility for sustainability and Dewi Day, Sustainability Advisor

22 October 2019

Share

Aberystwyth University has pledged to continually reduce its use of single use plastic. Led by the University's Sustainability and Hospitality teams, the pledge includes:

Gwaelod:



About us
Study with us
Open Days
Employability
Outreach
Research
Information for current students
Virtual Tour
News & Events
News Archive
DGES Newsletter
Staff Profiles
Contact Us

they pollute waterways and are a risk to wildlife. As a coastal university, reducing our plastic footprint throughout the University is an important part of our commitment to environmental sustainability. We've already made progress, with our reusable cups initiative and in 2 years we have saved 60,000 disposable cups from landfill. Today's pledge builds on our commitment to work with our staff and students to identify and implement further improvements to reduce single-use plastic for the benefit of the environment."

In August 2018, Aberystwyth University became the first university in the world to be awarded the Plastic Free University status, by Surfers against Sewage.

Share


### Contacts

Further Information:
Dewi Day, Sustainability Advisor, Aberystwyth University
01970 621756 / ded17@aber.ac.uk
Neil Waghorn, Sustainability Officer, Aberystwyth University
01970 622457 / njw11@aber.ac.uk
Elinor Howells, Communications and Public Affairs, Aberystwyth University
01970 628551 / elh45@aber.ac.uk


# Cynnwys Newyddion Wedi'i Ddrychweddu

Bydd y Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus yn drychweddu cynnwys newyddion sydd wedi'i gyhoeddi ar dudalennau Newyddion y Brifysgol (https://www.aber.ac.uk/cy/news/) fel bod y storïau hefyd yn ymddangos ar dudalennau Newyddion Adrannol yr ardaloedd perthnasol.

Gallwch eu hadnabod gyda'r symbol canlynol:




Bydd gosod eich cyrchwr ar y symbol yn rhoi manylion ynghylch yr adrannau eraill y mae'r cynnwys wedi'i ddrychweddu:



Gofynnir i gydweithwyr beidio â gwneud newidiadau i erthyglau newyddion sydd wedi'u drychweddu gan y bydd unrhyw newidiadau a wneir yn ymddangos yn y mannau eraill, ac i gysylltu gyda'r Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r erthyglau newyddion hyn.


## Creu Erthygl Newyddion

Fel rheol caiff erthyglau newyddion eu storio mewn adran o'r enw 'Newyddion Diweddaraf' (i ymddangos ar y dudalen 'Newyddion a Digwyddiadau'), neu 'Penawdau Eraill' (i ymddangos ar y dudalen 'Archif Newyddion'). Bydd yr adrannau hyn wedi'u lleoli mewn adran o'r enw 'Newyddion a Digwyddiadau', neu rywbeth tebyg.

1. I greu Erthygl Newyddion newydd, dewch o hyd i'ch adran 'Newyddion a Digwyddiadau' yn y CMS a'i ehangu i weld yr adrannau y tu mewn. Agorwch adran 'Newyddion Diweddaraf' drwy glicio arni.
2. Cliciwch ar y tab 'Content' ac fe welwch unrhyw eitemau newyddion presennol wedi'u rhestru
3. Cliciwch ar y botwm 'Add Content'
4. Bydd pob adran bellach yn defnyddio'r arddull newyddion mwy diweddar, felly dewiswch y templed 'News version 2'. Er bod y templedi eraill yn debyg i raddau helaeth gyda rhai mân newidiadau, ystyrir mai 'News version 2' yw'r mwyaf addas er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr holl dudalennau newyddion.

5. Bydd y templed yn ymddangos

a) Y templed 'News version 2' mwyaf diweddar:




Adolygwyd: Awst 2024

6. Llenwch gynifer o'r meysydd ag y mae gennych wybodaeth ar eu cyfer - mae rhai yn hanfodol, ac eraill yn ddewisol:

   a) **Title** (*hanfodol*) - dyma brif bennawd yr eitem newyddion.

   b) **Name** (*hanfodol*) - dyma enw'r darn o gynnwys ac nid yw'n ymddangos i bobl sy'n edrych ar y weddalen - dim ond er mwyn i chi a'ch cydweithwyr wybod pa ddarn o gynnwys ydyw.

   *c)* **Date released** - caiff hwn ei lenwi'n awtomatig i chi gyda'r dyddiad a'r amser cyfredol - os yw'r erthygl newyddion i gael ei rhyddhau yn y dyfodol yn hytrach nag ar unwaith, newidiwch y dyddiad. Bydd yn ymddangos o dan y pennawd pan fydd pobl yn edrych ar yr erthygl newyddion. *Ni fydd newid y dyddiad hwn yn effeithio ar bryd y bydd yr erthygl newyddion yn ymddangos ar y wefan - gwneir hyn gan fecanwaith arall - gweler pwynt 7 i gael rhagor o wybodaeth.*

   d) **Abstract** (*hanfodol*) - dyma grynodeb fer o beth sydd yn yr erthygl newyddion - bydd yn ymddangos ar adran y prif Newyddion.

   e) **Use an image?** (*hanfodol)* - rhaid gosod hwn ar 'Yes' os hoffech ddefnyddio llun yn eich erthygl newyddion, fel arall ni fydd eich llun yn ymddangos. Os nad ydych yn defnyddio llun, gosodwch hwn ar 'No'.

   f) **Image** (*argymhellir)* - dyma ble gallwch uwchlwytho llun i fynd gyda'r erthygl newyddion. Cliciwch ar y blwch i ddewis llun o'ch cyfrifiadur neu gallwch lusgo llun ar y blwch i'w ddewis. Gallwch ddefnyddio llun hyd at 1140 x 500 px.

   g) **Image Size** (*hanfodol*) - dyma ble'r ydych yn nodi maint y llun yr ydych wedi dewis ei ddefnyddio uchod. 200px = llai, 400px = bach, 800px = mawr.

   h) **Caption** - dyma'r capsiwn i fynd gyda'r llun - hwn fydd y testun amgen ar gyfer y llun a bydd yn dangos hefyd o dan y llun pan fydd rhywun yn edrych ar yr erthygl lawn.

i) **Full text** (*hanfodol*) - dyma brif destun yr erthygl newyddion.

j) **YouTube Video Code -** dyma ble gallwch fewnosod fideo YouTube o fewn erthygl newyddion os hoffech. Bydd angen i chi roi rhan olaf y cyfeiriad fideo YouTub, dim ond y rhan olaf e.e. dim ond "kktMqrMioY0" o https://www.youtube.com/watch?v=kktMqrMioY0

k) **Full text part 2** - dyma ble gallwch barhau â phrif destun yr erthygl newyddion os hoffech i'r fideo YouTube gael ei osod ar ganol y stori yn hytrach nag ar ddiwedd y stori.

l) **Links** - dyma ble gallwch osod unrhyw ddolenni sy'n berthnasol i'r erthygl - caiff y rhain eu lleoli ar waelod yr erthygl. Dylech ddefnyddio rhestr o bwyntiau bwled ar gyfer y dolenni, a dylent fod yn ddolenni testun - h.y. peidiwch â theipio URL y wefan yn unig.

m) **Contacts** - dyma restr o unrhyw gysylltiadau penodol ar gyfer yr erthygl newyddion hon - bydd eich bloc cyswllt cyffredinol eisoes yn ymddangos ar y chwith o dan y ddewislen, felly ni fydd angen defnyddio'r cysylltiadau oni bai eu bod yn wahanol neu'n fwy penodol. Bydd y cysylltiadau'n ymddangos ar waelod y dudalen wrth edrych ar yr erthygl.

n) **News code** - caiff hwn ei ddefnyddio os oes gennych system godio ar gyfer eich erthyglau newyddion a'ch bod eisiau cofnodi hynny.

o) **Add to AU Homepage?** - caiff hwn ei ddefnyddio ar gyfer tudalennau newyddion canolog y brifysgol yn unig. Mae'n marcio'r erthyglau newyddion sydd i gael eu dangos ar dudalen gartref y brifysgol.

*7.* Ni fydd yr eitem newyddion yn ymddangos yn unrhyw le eto ar eich safle hyd yn oed yn y rhagolwg yn y CMS oherwydd mae angen gosod y dyddiad rhyddhau. Fel y soniwyd eisoes, mae'r maes 'Date released' yn y templed newyddion yn cael ei ddefnyddio i ddangos dyddiad ar y dudalen yn unig - i osod y dyddiad y bydd y newyddion yn ymddangos ar y dudalen, bydd angen defnyddio'r tab 'options':

a) Cliciwch ar y tab Options - byddwch nawr yn gweld y dudalen 'Content embargo and expiry information'.

b) Nodwch y dyddiad a'r amser y dylai'r erthygl newyddion gael ei rhyddhau yn y blychau 'Publish Date'.

c) Os oes angen, rhowch y dyddiadau terfyn ac adolygu a dewiswch adran archif.

8. Cliciwch ar y botwm 'Save changes' i orffen. Byddwch yn dychwelyd i'r rhestr o gynnwys yn yr adran erthygl newyddion.

9. Wrth edrych ar ragolwg o'r adran Newyddion yn eich safle, fe ddylech weld eich Erthygl Newyddion yn ymddangos ar frig y rhestr (oni bai eich bod wedi gosod y dyddiad cyhoeddi yn y gorffennol, cyn dyddiad cyhoeddi erthygl arall)

## Ail-drefnu / Archifo eich Newyddion

Wrth ychwanegu eitemau newydd, fe welwch y bydd eitemau hŷn yn diflannu oddi ar y rhestr a ddangosir ar y dudalen ‛Newyddion a Digwyddiadau oherwydd dim ond y 10 eitem diweddaraf y mae'n ei ddangos. Os hoffech chi i eitemau barhau i ymddangos ar y tudalennau newyddion, gallwch eu symud i adran wahanol er mwyn iddynt ymddangos ar y dudalen ‛Archif Newyddion’.

1. Agorwch yr adran ‛Newyddion Diweddaraf’ar gyfer golygu a chliciwch ar y tab 'Content'
2. Dewch o hyd i'r eitem newyddion sydd wedi diflannu oddi ar y rhestr (fe ddylent fod wedi’u rhestru yn ôl y dyddiad cyhoeddi) a dewiswch 'Move' o'r ddewislen 'Actions' (y ceir mynediad iddi o'r botwm 'Actions' i'r dde o'r eitem newyddion)
3. Bydd y sgrin 'Move Content' yn ymddangos, cliciwch ar yr adran ’Penawdau Eraill’ a ddylai fod y tu mewn i'r adran ‛Newyddion a Digwyddiadau’ (ynghyd ag adran ‛Newyddion Diweddaraf’)
4. Byddwch yn dychwelyd i'r rhestr o gynnwys yn yr adran ’Newyddion Diweddaraf’ gyda neges lwyddo ar y gwaelod. Fe welwch nad yw'r eitem newyddion yr ydych wedi'i symud bellach yn y rhestr hon
5. Wrth edrych ar ragolwg o'r adran Newyddion yn eich safle, fe ddylech weld eich erthygl newyddion sydd wedi symud yn ymddangos ar y dudalen ‛Archif Newyddion’.